



27 Hydref 2022

Annwyl Randdeiliaid

Mesurau Rheoli Ffin

Mae Llywodraeth y DU (gyda chydysyniad Llywodraeth Cymru) wedi gweithredu sawl estyniad i'r cyfnod graddoli trosiannol sydd wedi gohirio'r broses o ddefnyddio gwiriadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) ar nwyddau'r UE o dan y Rheoliadau Rheoli Swyddogol (OCR) ers iddynt gael eu gweithredu'n wreiddiol ym mis Ionawr 2020. Yn ogystal, roedd Rheoliadau Rheolaeth Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 yn cynnwys diwygiadau i ddarpariaethau'r OCR¹ i eithrio rhai nwyddau o ynys Iwerddon o'r gofyniad i rag-hysbysu.

Daw'r estyniad diweddaraf i ben ar 31 Rhagfyr 2022, ac ar yr adeg honno bydd y gofyniad am wiriadau o dan yr OCR yn dod i rym, oni bai bod deddfwriaeth i ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol yn cael ei wneud unwaith eto cyn hynny.

Cyhoeddodd y cyn Weinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth Ddatganiad Ysgrifenedig ar 28 Ebrill, a oedd yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i atal cyflwyno rheolaethau ffiniau ymhellach tan ddiwedd 2023, ac y byddai Llywodraeth y DU yn cyflymu eu rhaglen i ddigideiddio ffiniau Prydain. Esboniodd y byddai'r dull ail-ddyfalw yn cael ei gyflwyno mewn *Model Gweithredu Targed* dan arweiniad Llywodraeth y DU, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr hydref a'i weithredu erbyn diwedd 2023. Gwnaeth Gweinidog yr Economi sawl datganiad yn ymwneud â'r Senedd, gan gynnwys datganiadau ar 27 Ebrill, 3 Mai a'r 28 o Fehefin.

¹ Rheoliad (UE) 2017/625 o Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion yn cael eu cymhwysu er mwyn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (UE) Rhif 1151/2012, (UE) Rhif 652/2014, (UE) 2016/429 a (UE) 2016/2031 o Senedd Ewrop a'r Cyngor, Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 a (EC) Rhif 1099/2009 a Chyfarwyddebau'r Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, a Rheoliadau diddymu (EC) Rhif 854/2004 a (EC) Rhif 882/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC (Cyfraith yr UE a ddargedwir)

Yn sgil cyhoeddiad y Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn na fyddai'n gwneud synnwyr i gyflwyno'r mesurau rheoli canlynol ar hyn o bryd ar wahân i Gymru.

- Gofyniad am wiriadau iechydol a ffytoiechydol yn y gyrchfan ar hyn o bryd i'w symud i safle rheoli ffiniau.
- Gofyniad am ddatganiadau diogelwch ar fewnforion yr UE
- Gofyniad am ardystiad iechyd pellach a gwiriadau iechydol a ffytoiechydol ar gyfer mewnforion o'r UE
- Gofyniad i nwyddau iechydol a ffytoiechydol gael eu cyflwyno mewn safleoedd rheoli ffiniau
- Gwaharddiadau a chyfyngiadau ar fewnforio cigoedd oer o'r UE

Fel yr eglurwyd mewn datganiadau i'r Senedd, os oes modd cael system fewnforio ddiogel ac effeithlon trwy harneisio technolegau newydd arloesol i symleiddio prosesau a lleihau gwrthdaro, mae hyn yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei gefnogi. Ond, yn yr un modd byddwn am gael sicrwydd bod digon o bwyslais ar ein cyfrifoldebau strategol hirdymor i ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yn y wlad hon.

Bydd estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill yn y DU i gwblhau a gweithredu'r *Model Gweithredu Targedau*, i sicrhau y gellir cyflwyno system o reolaethau cydlynol, effeithiol ac effeithlon, a thrwy hynny wella bioddiogelwch a lleihau'r effaith ar fewnforwyr.

Er mwyn galluogi'r gwaith hwnnw, mae'n hanfodol bod Gweinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am fioggielwch, diogelwch bwyd a rheolaethau iechydol a ffytoiechydol yng Nghymru, yn deall maint, natur a phroffil risg cynhyrchion sy'n mynd i borthladdoedd Cymru. Mae hefyd yn allweddol i'n partneriaid mewn Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd porthladdoedd yng Nghymru. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i eithrio mewnforion cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid o ynys Iwerddon o'r gofyniad rhag-hysbysu wedi golygu bod gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol fwelch data sylweddol nad yw wedi bod yn bosibl mynd i'r afael ag ef drwy ffynonellau eraill.

Mae'r diffyg data hwn wedi amharu ar gynllunio a datblygu ein rheolaethau ffiniau a gweithrediadau cysylltiedig. Mae'n rhwystro unrhyw ddadansoddiad ystyrlon o effaith cynigion Model Gweithredu Targed sy'n dod i'r amlwg ar seilwaith ac adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol i alluogi Safleoedd Rheoli Ffiniau i wasanaethu porthladdoedd Caerdybi, Doc Penfro ac Abergwaun i gynnal gwiriadau iechydol a ffytoiechydol yn effeithlon pan fyddant yn dod i rym yn y pen draw.

Am y rhesymau hyn, rydym yn bwriadu dileu'r eithriad ar rag-hysbysu ar gyfer nwyddau ar gyfer rhai nwyddau a fewnforiwyd o Weriniaeth Iwerddon o'r 1 Ionawr 2023. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i fewnforwyr cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, a phlanhigion hysbysadwy wedi'u rheoleiddio nad oes rhaid eu rhag-hysbysu ar hyn o bryd, a rhai nwyddau sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n teithio i Gymru o Weriniaeth Iwerddon, nodi ychydig o wybodaeth am eu llwythi yn y system IPAFFS ar-lein. Ni fydd angen unrhyw waith papur nac ardystiad. Bydd mewnforwyr sydd hefyd yn delio â mewnforion o dir mawr yr UE yn gyfarwydd â'r gofyniad hwn.

Mae angen i ni ddeddfu nawr, er mwyn gwthio'r gofynion fyddai fel arall yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023 yn ôl.

Er mwyn osgoi rhedeg allan o amser i wneud deddfwriaeth Cymru cyn mis Ionawr, rydyn ni wedi penderfynu bod angen i ni ddechrau'r broses ar unwaith. Rydym yn rhagweld y bydd

deddfwriaeth debyg i ymestyn ymhellach y cyfnod graddoli trosiannol yn cael ei chyflwyno i ddod i rym yn Lloegr a'r Alban.

Mae Llywodraeth Cymru felly'n bwriadu gosod Offeryn Statudol (OS). Bydd yr OS hwn yn diwygio'r amserlen wreiddiol ymhellach fel y deddfwyd, gan sicrhau y bydd y gwiriadau SPS sydd wedi'u trefnu i ddod i rym ym mis Ionawr 2023 nawr yn dilyn yr amserlen newydd. Bydd yr OS hwn hefyd yn dileu'r eithriad ar rag-hysbysu ar gyfer rhai nwyddau a fewnforiwyd o Weriniaeth Iwerddon o 1 Ionawr 2023.

Ar hyn o bryd, rydym wedi dewis ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol tan 31 Ionawr 2024, er mwyn osgoi tarfu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno rhai gwiriadau cyn y dyddiad hwnnw, ond, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i roi hysbysiad o unrhyw gyflwyno cynharach o'r gwiriadau er mwyn galluogi busnesau ac eraill i baratoi.

Rydym yn ymddiheuro am y cyfnod ymateb byr oherwydd y cyfnod byr sydd gennym ar ôl i gyflwyno deddfwriaeth berthnasol. Byddem yn ddiolchgar am eich barn erbyn 11 Tachwedd ar y newidiadau deddfwriaethol newydd arfaethedig, yn benodol canlyniadau posibl peidio â diwygio'r amserlen ac yn hytrach gadw dyddiad gwreiddiol 1 Ionawr 2023 ar gyfer gweithredu gwiriadau ffiniau SPS.

Dylid anfon pob ymateb drwy e-bost os gwelwch yn dda at BorderInfrastructureProgramme@llyw.cymru

Diolch ymlaen llaw am eich barn a'ch syniadau ar y deddfwriaeth arfaethedig.

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy. Mae'n bosib hefyd y bydd staff eraill Llywodraeth Cymru yn ei gweld i helpu iddynt gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.



Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and
Trefnydd